# Canllawiau Datganoli i Lunwyr Polisi

Mewn DU sy'n fwyfwy datganoledig, anogir llunwyr polisi o bob gweinyddiaeth yn gryf i **gyfathrebu a chydweithio** â chyfatebwyr mewn gweinyddiaethau eraill. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall effaith eich gwaith ar draws y DU.

Nid yw'r rhestr wirio isod yn rhestr gynhwysfawr o'r egwyddorion y dylid eu dilyn a'r cwestiynau y dylid eu holi wrth lunio polisi. Gan ddibynnu ar gyd-destun y polisi, efallai y bydd rhagor o gwestiynau neu gwestiynau gwahanol y byddwch am eu hystyried. Bydd y pwyntiau cyswllt a'r adnoddau pellach ar y dudalen nesaf yn eich helpu.

## A yw'r polisi wedi'i ddatganoli, wedi'i gadw'n ôl neu'n gymysg?

Wedi'i ddatganoli?

Beth yw'r rhychwant tiriogaethol?

*Cofiwch fod setliadau datganoledig yn anghymesurol*

A fydd goblygiadau cyllido i'r polisi, gan gynnwys Fformiwla Barnett?

A fydd angen caniatâd deddfwriaethol ar y polisi?

Wedi'i gadw'n ôl?

A fydd y polisi yn effeithio ar faes pwnc sy'n gyfrifoldeb gweinyddiaeth arall?

A fydd angen ymgynghori â gweinyddiaethau eraill?

Cymysg?

Sut bydd mewnbwn gweinyddiaethau eraill yn cael ei reoli yn unol â'r setliadau datganoli?

Sut gallai gwahaniaethau rhanbarthol, economaidd a chymdeithasol effeithio ar effeithiolrwydd y polisi a sut y caiff ei dderbyn?

## A wyf wedi ceisio cael yr holl farn angenrheidiol er mwyn cyflwyno'r polisi?

A wyf wedi ceisio barn a mewnbwn gweinyddiaethau eraill?

*Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw'r ddogfen gyfarwyddyd ar gyfer y cwestiwn hwn.*

A wyf wedi cynllunio amser digonol i ymgysylltu â'r gweinyddiaethau eraill?

*Gwnewch amser i ymgysylltu'n gynnar.*

A wyf wedi ceisio cael barn gan ystod briodol o randdeiliaid?

*I weision sifil Llywodraeth y DU, mae'r Swyddfeydd Tiriogaethol yn bwyntiau cyswllt hynod ddefnyddiol.*

A wyf wedi defnyddio ymchwil/tystiolaeth sy'n berthnasol o bob rhanbarth o'r DU, i ddatblygu yr amrywiaeth o opsiynau polisi a chyfiawnhau unrhyw argymhellion?

*Bydd cydweithyr mewn gweinyddiaethau eraill yn gallu darparu data neu ymchwil berthnasol.*

## Gweithredu

A fydd gweithredu'r polisi yn torri ar draws meysydd datganoledig megis iechyd a phlismona neu feysydd a gedwir yn ôl megis materion tramor?

*Gweler yr adnodd trosolwg ar ffurf cerdyn post ar gyfer yr hyn sy'n ddatganoledig, yr hyn a gedwir yn ôl neu'r hyn sy'n gymysg.*

A yw'r isadeiledd gweithredu a chyflwyno yn ei le ledled y DU?

*Mae iechyd, addysg a gwasanaethau llywodraethau lleol yn gweithredu'n wahanol ar draws y DU, a dylech astudio ac ystyried y gwahaniaethau hyn wrth ddatblygu strategaethau gweithredu.*

A fydd angen addasu yn angenrheidiol er mwyn gweithio yn yr isadeiledd hwn?

*Mae'n bosibl y bydd yn ddefnyddiol hefyd i gyfeirio at y canllawiau 'prawfesur polisïau o safbwynt cefn gwlad" a 'prawfesur polisïau o safbwynt yr ynysoedd'.*

Datganoli a Chi

# Â phwy gallaf gysylltu?

| | |
|---|---|
| **Eich Adran** | Tîm Datganoli'r Adran<br>• Arbenigwyr wrth gefnogi ymgysylltiad datganoledig a datblygu gallu datganoledig. |
| **Llywodraeth y DU** | Grŵp Llywodraethu'rDU, Swyddfa'r Cabinet<br>• Yn gyfrifol am berthnasoedd rhynglywodraethol y Deyrnas Unedig a materion cyfansoddiadol a datganoli ledled y DU. |
| | Grŵp y Cyfansoddiad, Swyddfa'r Cabinet<br>• Yn cefnogi Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn a gweinidogion eraill wrth gyflawni agenda gyfansoddiadol a datganoli'r Llywodraeth. |
| | Swyddfeydd Ysgrifenyddion Gwladol Cymru a'r Alban; Swyddfa Gogledd Iwerddon<br>• Yn sicrhau y caiff diddordebau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu cynrychioli'n effeithiol ac yn llawn yng nghanol Llywodraeth y DU , a bod cyfrifoldebau Llywodraeth y DU yn cael eu cynrychioli'n llawn ac yn effeithiol yng Nghymru, yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon . |
| | Ysgrifenyddiaeth Materion Economaidd a Domestig<br>• Dylid cysylltu â hi am gymorth gyda materion cymhleth neu broffil uchel, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys un neu fwy o weinyddiaethau datganoledig. |
| | Swyddfa Adfocad Cyffredinol yr Alban<br>• Yn darparu cyngor cyfreithiol , gwasanaethau drafftio ac ymgyfreithfa i Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r Alban. |
| **Gweinyddiaethau Datganoledig** | Is-adran y Cyfansoddiad a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru<br>• Yn gyfrifol am berthnasoedd rhynglywodraethol (gan gynnwys Cyngor Gwyddelig Prydain a Chyd-bwyllgor Gweinidogion (JMC)), deddfwriaeth seneddol y DU a chydsyniad deddfwriaethol, a materion sy'n ymwneud â chyfansoddiad y DU a'r setliadau datganoledig, gan gynnwys goblygiadau cyfansoddiadol gadael yr UE. |
| | Is-uned Weithredol a Chyngor Canolog, Y Swyddfa Weithredol, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon<br>• Yn gyfrifol am berthnasoedd rhynglywodraethol o fewn y DU, gan gynnwys cyfranogiad yng Nghyd-bwyllgor y Gweinidogion a Chyngor Ynysoedd Prydain . |
| | Is-uned y Cyfansoddiad a Pherthnasoedd y DU, Llywodraeth yr Alban<br>• Yn gyfrifol am berthnasoedd rhwng Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill. |

# Adnoddau Allweddol

| | |
|---|---|
| **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU)** | Wedi'i gytuno yn 2012, mae'n amlinellu'r egwyddorion sy'n sail i berthnasoedd rhwng pedair gweinyddiaeth y DU. |
| **Modiwl CSL Ar-lein: Datganoli a Gweithio Rhynglywodraethol** | Mae hyn yn cynnwys sawl tiwtorial sy'n esbonio'r gwahaniaeth rhwng gweinyddiaethau datganoledig a chyrff datganoledig, y gwahaniaeth rhwng pwerau a gedwir yn ôl a phwerau datganoledig a natur anghymesurol datganoli. |
| **Trosolwg ar ffurf cerdyn post o bwerau datganoledig a pherau a gedwir yn ôl** | Crynodeb o'r pwerau sydd wedi'u datganoli a'u cadw'n ôl ym mhob ran o'r DU. |
| **Cyflwyniad i Ddatganoli** | Trosolwg mwy manwl o'r dirwedd datganoli gyfredol yn y DU a sut i weithredi ynddi. Mae hyn yn cynnwys rhestr o dermau, canllaw i fyrfoddau a thudalennau pwyntiau cyswllt. |
| **Ffeithlen Datganoli** | Trosolwg lefel uwch o elfennau sylfaenol datganoli. |
| **Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ddatganoli** | Pennu cyngor ar drefniadau gweithio rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. |